

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Ionawr 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDCC

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddDCC](https://twitter.com/SeneddDCC)**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Adroddiad ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Ionawr 2024



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.

Ceir ei gylch gwaith yn www.senedd.cymru/SeneddDCC

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Huw Irranca-Davies AS
Llafur Cymru



Alun Davies AS
Llafur Cymru



Samuel Kurtz AS
Ceidwadwyr Cymreig



Adam Price AS
Plaid Cymru

Yr Aelodau a ganlyn oedd y rhai a fu'n ymwneud â'r gwaith craffu ar y Bil, a chytuno ar yr Adroddiad:



Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor
Alun Davies AS
Llafur Cymru



James Evans AS
Celdwadwyr Cymreig



Luke Fletcher AS
Plaid Cymru



Carolyn Thomas AS
Llafur Cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	5
Diben y Bil	5
Cylch gorchwyl y Pwyllgor.....	6
2. Cymhwysedd deddfwriaethol.....	8
Ein barn ni	9
3. Sylwadau cyffredinol	10
Yr angen am y Bil.....	10
Llunio'r Bil	11
Hygyrchedd	13
Ein barn ni	15
4. Sylwadau penodol ar adrannau yn y Bil a'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.....	19
Rhan 1 - Y Senedd a Gweinidogion Cymru	20
Adran 4 - Dirprwy Lywydd ychwanegol.....	20
Ein barn ni.....	20
Adran 5 - Cynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru.....	21
Ein barn ni.....	25
Adran 6 - Anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd	25
Ein barn ni.....	27
Adran 7 - Adolygiad o'r posibilrwydd o rannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd.....	28
Ein barn ni.....	31
Rhan 2 - Y system bleidleisio mewn etholiadau cyffredinol y Senedd a dyrannu seddi.....	33
Adran 9 - Seddi gwag.....	33

Ein barn ni.....	35
Rhan 4 – Adolygu Ffiniau Etholaethau'r Senedd	36
Adran 17 – Etholaethau'r Senedd ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2026 ac adran 18 – Etholaethau'r Senedd ar gyfer etholiadau cyffredinol ar ôl 1 Ebrill 2030	36
Ein barn ni.....	38
Rhan 5 – Adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc. a darpariaethau cyffredinol	39
Adran 19 – Adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc. ar ôl etholiad cyffredinol 2026.....	39
Ein barn ni.....	43
Adran 20 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.....	46
Ein barn ni.....	47

1. Cyflwyniad

Ar 18 Medi 2023, cyflwynodd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (y Cwnsler Cyffredinol) Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) (y Bil),¹ a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef.²

1. Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Senedd y Bil i'r Pwyllgor Biliau Diwygio ar 12 Medi 2023, a gosododd 19 Ionawr 2024 fel y dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad ar ei egwyddorion cyffredinol.³
2. Ar 18 Medi 2023, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol Ddatganiad o Fwriad y Polisi i is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud o dan y Bil.⁴

Diben y Bil

3. Mae enw hir y Bil yn datgan y canlynol amdano:

“Deddf gan Senedd Cymru i wneud darpariaeth ynghylch Aelodau'r Senedd a swyddi a ddelir gan yr Aelodau hynny; etholaethau Senedd Cymru; dychwelyd Senedd Cymru a'i chynnal; Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru; ac at ddibenion cysylltiedig.”

4. Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol ar 18 Medi 2023.⁵

¹ Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), fel y'i cyflwynwyd

² Llywodraeth Cymru, a'r Nodiadau Esboniadol. Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol, Medi 2023

³ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Medi 2023

⁴ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol at David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio, 18 Medi 2023, yn amgáu Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

⁵ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), 18 Medi 2023

5. Yn gwyno, mae'r Bil yn cynnig:

- cynyddu maint y Senedd i 96 o Aelodau, drwy ddarparu 16 o etholaethau, pob un â chwe sedd;
- cynyddu'r terfyn deddfwriaethol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru i 17 (yn ychwanegol at y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol), gyda'r pŵer i gynyddu'r terfyn hwn ymhellach i 18 neu 19;
- cynyddu nifer uchaf y Dirprwy Lywyddion y caniateir eu hethol o'r tu mewn i'r Senedd i ddau;
- newid system etholiadol y Senedd fel bod yr holl Aelodau'n cael eu hethol drwy system cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig, gyda'r pleidleisiau'n cael eu troi'n seddi drwy ddefnyddio fformiwla d'Hondt;
- addasu ac ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, gan gynnwys:
 - rhoi i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, o dan ei enw newydd, y swyddogaethau angenrheidiol er mwyn iddo allu sefydlu etholaethau Senedd newydd a chynnal adolygiadau parhaus o ffiniau etholaethau'r Senedd;
 - darparu cyfarwyddiadau i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru eu dilyn wrth gynnal ei adolygiadau ffiniau;
- darparu mai pedair blynedd yw'r cyfnod arferol rhwng etholiadau cyffredinol cyffredin y Senedd;
- ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr i'r Senedd ac Aelodau ohoni breswyllo yng Nghymru;
- galluogi adolygiad o weithrediad ac effaith y darpariaethau deddfwriaethol newydd yn dilyn etholiad cyffredinol y Senedd yn 2026;
- darparu mecanwaith i'r Senedd allu ystyried rhannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd, yn y Seithfed Senedd.⁶

Cylch gorchwyl y Pwyllgor

6. Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a

⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraff 23 ac Atodiad 1, Nodiadau Esboniadol

26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder, a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

7. Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir i'r Senedd, byddwn yn ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys cydnawsedd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (hawliau'r Confensiwn);
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth;
- unrhyw fater arall rydym yn ystyried ei fod yn berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

8. Cawsom dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar 16 Hydref 2023.⁷

9. Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth, ysgrifennwyd at y Cwnsler Cyffredinol ar 31 Hydref 2023 gyda chyfres o gwestiynau ychwanegol mewn perthynas â'r Bil.⁸ Ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol i'n cwestiynau ar 16 Tachwedd 2023.⁹

10. Ar 11 Rhagfyr 2023, ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol atom i ddarparu atodlen o welliannau a fyddai'n cael eu gwneud i Ddeddfau penodol o ganlyniad i'r Bil a'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).¹⁰

Argymhelliad 1. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ymateb i'r casgliadau a'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn o fewn dau ddiwrnod gwaith cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol yng Nghyfnod 1.

⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023. Cofnod y Trafodion

⁸ Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol, 31 Hydref 2023

⁹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023

¹⁰ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 11 Rhagfyr 2023

2. Cymhwysedd deddfwriaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.¹¹

11. Buom yn ystyried y Bil o dan y model cadw pwerau o gymhwysedd deddfwriaethol, fel y'i nodir yn adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006).

12. Yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, datganodd Elin Jones AS, y Llywydd, y byddai'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.¹²

13. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol ei fod yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a dywedodd y canlynol wrthym:

*"I have considered the competence issues in detail, and I do not consider that there are any competence issues in this Bill as drafted."*¹³

14. Cyfeiriodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd at yr angen am addasiadau penodol i swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 13A(1)(b) o Ddeddf 2006, sydd o ganlyniad i'r Bil ddileu'r cwmpas ar gyfer is-etholiad Senedd (yn rhinwedd Rhan 2 o'r Bil), a phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol felly sy'n cynnwys is-etholiadau. Rhoddodd wybod i ni ei fod wedi ymgynghori â Gweinidog priodol y DU ynglŷn â'r ddarpariaeth, fel sy'n ofynnol ar ôl dileu'r swyddogaethau ac ychwanegodd nad oedd o'r farn bod gofynion cydsyniad Gweinidog y Goron o fewn y ddeddfwriaeth a oedd gerbron y Pwyllgor.¹⁴

15. Mae un o'r gofynion y mae'n rhaid ei fodloni er mwyn i Fil fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd wedi'i nodi yn adran 108A(2)(e) o Ddeddf 2006. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i holl ddarpariaethau Bil gydymffurfio â hawliau'r Confensiwn.

16. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym ei fod wedi cynnal asesiad o effaith y Bil ar y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol,¹⁵ gan nodi hefyd nad yw'n

¹¹ Memorandwm Esboniadol, Datganiad yr Aelod, tudalen 1

¹² Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol, 18 Medi 2023

¹³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [7]

¹⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [22]

¹⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [25]

arferol i asesiad o'r fath gael ei gyhoeddi.¹⁶ Nododd mai senedd yn nodi ei threfniadau etholiadol ei hun o fewn ei fframwaith yw hyn¹⁷ a dywedodd y canlynol hefyd:

*"There are no human rights convention issues, I think, that are of any consequence that would need raising specifically."*¹⁸

17. Mae adran 6 o'r Bil yn cynnig anghymhwyso person rhag sefyll fel ymgeisydd neu rhag bod yn Aelod o'r Senedd oni bai ei fod wedi'i gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru. Pan wnaethom ofyn a yw'r adran hon o'r Bil yn gydnaws â Hawliau'r Confensiwn, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

*"Section 6 is compatible. Many other countries set their own residency requirements. We are completely in accord with that. Where it has been tested in legal cases has only actually been as a peripheral issue, and there was no need, I think, within that particular case for there to be any specific commentary. It was taken that a state setting its own residential requirements in terms of its own electoral system is something that is not in breach of that, provided it fits within the parameters of those human rights conventions. We are in accord with a number of countries that set that position, Ukraine being one of them."*¹⁹

Ein barn ni

18. Nodwn ddatganiad y Llywydd y byddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

19. Nodwn y dystiolaeth a gafwyd gan y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas â materion cymhwysedd deddfwriaethol, a chydawnsedd â hawliau'r Confensiwn yn benodol. O gofio pwysigrwydd cyfansoddiadol y Bil, rydym yn credu y byddai'n werth cyhoeddi asesiad effaith y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Argymhelliad 2. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyhoeddi asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y Bil ar y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ddau ddiwrnod gwaith cyn y ddadl yng Nghyfnod 1.

¹⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [27]

¹⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [27]

¹⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [25]

¹⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [29]

3. Sylwadau cyffredinol

Yr angen am y Bil

20. Ers dechrau'r Bumed Senedd, mae'r adroddiadau allweddol a ganlyn²⁰ wedi'u llunio mewn perthynas â diwygio'r Senedd:

- Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad;²¹
- Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf (Pwyllgor y Bumed Senedd ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd);²²
- Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru (Pwyllgor Diben Arbennig y Chweched Senedd ar Ddiwygio'r Senedd (y Pwyllgor Diben Arbennig));²³
- Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru (Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd).²⁴

21. Datganodd y Cwnsler Cyffredinol ym Memorandwm Esboniadol y Bil mai ei ddiben cyffredinol yw:

*"... gwneud y Senedd yn ddeddfwrfa fwy effeithiol ar gyfer, ac ar ran, pobl Cymru. Mae'r diben hwn yn adlewyrchu bwriad y Pwyllgor Diben Arbennig, a nodwyd yn ei adroddiad, i sicrhau "senedd gryfach i gynrychioli pobl Cymru"."*²⁵

22. Wrth gyflwyno'r Bil, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

"Mae'n rhoi cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ni a phobl Cymru gyflawni'r newidiadau angenrheidiol i foderneiddio'r Senedd, gan adlewyrchu Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Senedd sy'n fwy effeithiol, sydd â'r gallu a'r cadernid i ddwyn

²⁰ Ceir crynodeb o'r tri adroddiad cyntaf a restrwyd yn: Ymchwil y Senedd, [Diwygio'r Senedd - y stori hyd yma](#), 4 Hydref 2023

²¹ [Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad](#), Tachwedd 2017

²² Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, [Diwygio'r Senedd: Y camau nesaf](#), Medi 2020

²³ Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, [Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Mai 2022

²⁴ Y Pwyllgor Busnes, [Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd - Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru](#), Rhagfyr 2022

²⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 22

*Llywodraeth Cymru i gyfrif; Senedd fwy cynrychioliadol i wasanaethu pobl Cymru yn well.*²⁶

23. Nododd y Cwnsler Cyffredinol mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Biliau Diwygio, ers Cynulliad Cenedlaethol gwreiddiol Cymru ym 1999, fod y Senedd wedi dod yn ddeddfwrfa gyflawn â mwy o gyfrifoldebau.²⁷ Ychwanegodd fel a ganlyn:

*“... the growth of those responsibilities, the need to legislate in very complex areas, the need also to engage on inter-governmental relations with counterparts across the UK, and to deal with a very substantial UK Government legislative programme that engages with many of our responsibilities—it is about the capacity to have the depth of scrutiny that is needed, and for having enough Members who will be able to develop the particular skills, the expertise, the specialisms that are necessary. And I think increasing the size of the Senedd enables that to happen.”*²⁸

24. Awgrymodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd, er nad oedd y manylion ar gyfer diwygio'r Senedd wedi ymddangos mewn maniffestos gwleidyddol, mai'r hyn sydd wedi bod yn y maniffestos yw bod angen diwygio, bod angen newid y Senedd er mwyn cynyddu ei maint.²⁹

Llunio'r Bil

25. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol wrthym:

*“... the Welsh Government's in a sort of unusual position in this—or, I'm in an unusual position in this—in the sense that my job is to actually implement the recommendations that come from the special purpose committee and to ensure that legislation is effective, viable and within competence. So, there has been that discussion by way of, almost, engagement with all Members through that special purpose committee, as well. I don't know if there's anything to add to that.”*³⁰

²⁶ Y Cyfarfod Llawn, 19 Medi 2023, Cofnod y Trafodion [204]

²⁷ Y Pwyllgor Biliau Diwygio, 5 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [8]

²⁸ Y Pwyllgor Biliau Diwygio, 5 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [8]

²⁹ Y Pwyllgor Biliau Diwygio, 5 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [25]

³⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [11]

26. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrth y Pwyllgor Biliau Diwygio hefyd nad yw'r Bil yn Fil Llywodraeth³¹, bod Llywodraeth Cymru yn hwyluso gallu Bil i basio drwy'r Senedd³² ac mai ei swyddogaeth yw cyflawni dymuniadau'r Senedd ac os oes gan y dymuniadau hynny fwyafrif o ddwy ran o dair yn y Senedd, mai dyna'r hyn y bydd y ddeddfwriaeth hon yn ei gynrychioli.³³

27. Dywedodd y canlynol hefyd:

“Wrth ddatblygu a pharatoi Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), ystyriodd Llywodraeth Cymru, a'i phartneriaid Cytundeb Cydweithio ym Mhlaid Cymru, nifer o bolisiau a oedd yn ymwneud ag argymhellion gwreiddiol y Pwyllgor Diben Arbennig ond nad oeddent eu hunain yn argymhellion penodol y Pwyllgor.”³⁴

28. Yng nghyd-destun ymateb a roddwyd mewn perthynas â'n cwestiynau ar adran 7 (Adolygiad o'r posibilrwydd o rannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd) o'r Bil, nododd y Cwnsler Cyffredinol nad yw'r Bil “yn gorfodi llywodraeth y dydd i dderbyn argymhellion pwyllgor a sefydlwyd i adolygu'r trefniadau rhannu swyddi.”³⁵ Cydnabu hefyd fod y:

“ddarpariaeth yn cynnig dull gweithredu sy'n dilyn y model gwaith a arweiniodd at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), lle ystyriodd un o bwyllgorau'r Senedd y mater cyn gwneud argymhellion a gafodd eu gweithredu wedyn gan y llywodraeth.”³⁶

29. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol pam nad oedd Bil drafft wedi'i gyflwyno a gofynnwyd iddo esbonio'r prosesau a ddilynwyd wrth ddatblygu'r Bil fel y'i cyhoeddwyd. Dywedodd y canlynol wrthym:

“I think the reason is not that it's a decision not to do that, but it's a question of whether it was feasible or practical to actually do so ... for legislation like this, it has to be in place at least six months ahead of the elections themselves ... So, when you start counting back on the dates and so on, the timescale just doesn't enable that to happen. In terms of justification for really

³¹ Y Pwyllgor Biliau Diwygio, 5 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [16 a 124]

³² Y Pwyllgor Biliau Diwygio, 5 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [16]

³³ Y Pwyllgor Biliau Diwygio, 5 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [124]

³⁴ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 9

³⁵ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 5

³⁶ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 5

not doing so, this is an issue that we've been discussing probably for the past 20 years ... and there has been quite considerable engagement with the electoral bodies as well that would be involved and with the Senedd as well. So, basically it's not feasible to do so. But we do hope that we will have the legislation—there will be enough time for scrutiny—in place in good time to enable the 2026 elections to operate in accordance with all the requirements and conventions that we have.”³⁷

30. Pan ofynnwyd a oedd yn bwysicach cael y ddeddfwriaeth yn iawn yn hytrach na'i chael drwy'r Senedd yn gyflym, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

“Well, it's a question of getting it done in time so that it can actually be implemented, because, within the tight timescales that we're in, any delay that takes us beyond that could mean that the legislation would not actually operate.”³⁸

Hygyrchedd

31. O dan *Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019* (Deddf 2019), mae'n rhaid i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol lunio a gosod rhaglen gerbron y Senedd i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Mae'n rhaid i bob rhaglen wneud darpariaeth er mwyn cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, cynnal cyfraith godeiddiedig, hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru, a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

32. Nodwyd bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y Bil a'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Felly, gwnaethom ystyried hygyrchedd yr holl ddeddfwriaeth diwygio etholiadol a oedd yn cael ei chyflwyno o ran darpariaethau sy'n ymwneud â chyfundrefn anghymhwysu'r Senedd³⁹ a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (ei enw presennol).⁴⁰

33. Ynghylch anghymhwysu, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol wrthym:

“Mae'r darpariaethau anghymhwysu yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig yn rhan o becyn o ddiwygiadau yr ymgynghorwyd arnynt fel rhan o bapur gwyn (Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol). Mae gan

³⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [9]

³⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [11]

³⁹ Adran 6 o'r Bil ac adrannau 61 i 63 o'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).

⁴⁰ Adrannau 11 i 16 o'r Bil ac adrannau 65 a 66 o'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).

ddiwygiadau o'r fath oblygiadau penodol hefyd i Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned. Nid oedd hyn yn cynnwys anghymhwysiad mewn perthynas â phreswylad.

Yn unol â hynny, ystyriwyd ei bod yn fwy priodol ymdrin â'r anghymwysiadau hyn ar wahân, drwy'r ddau Fil.

Mae'r ddau Fil yn cyflawni eu polisiau unigol drwy ddiwygio'r drefn anghymwysio bresennol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd hyn yn golygu, os bydd y Biliau yn cael eu deddfu, y bydd un drefn anghymwysio o hyd, gan sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn hygyrch.”⁴¹

34. Mewn perthynas â'r darpariaethau ynghylch Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (ei enw presennol), dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

“Pan fo gorgyffwrdd eang rhwng y newidiadau sy'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o safbwynt llywodraeth leol a diwygio'r Senedd, yna mae'r newidiadau hynny wedi'u cynnwys mewn un Bil - Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i'r enw (i adlewyrchu cyfrifoldebau newydd) ac uchafswm nifer y Comisiynwyr er enghraifft. Gwnaed hyn er mwyn osgoi gwneud newidiadau i'r un darpariaethau yn agos at ei gilydd.

Fodd bynnag, mae'n briodol bod newidiadau sy'n ymwneud â swyddogaethau penodol ac sy'n addasu'r swyddogaethau hynny (er enghraifft y rhai sy'n ymwneud ag adolygiadau etholiadol llywodraeth leol), yn cael eu gwneud yn y Bil mwyaf perthnasol, gan arwain at ddeddfwriaeth lai a mwy penodol.

Mae'r ddau Fil yn cyflawni eu newidiadau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru drwy ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i'w hailenwi'n Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013. Bydd hyn yn golygu, os bydd y Biliau yn cael eu deddfu, y bydd y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn hygyrch mewn un Ddeddf.”⁴²

⁴¹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 9

⁴² Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 9

35. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod y Bil “mewn termau gweithredol yn fewnol gydlynol” ac felly nid yw’n ddibynnol ar Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) (y cyfeirir ato’n aml fel y Bil Cwotâu Rhywedd) sydd ar ddod.⁴³ Disgwylwyd i’r Bil Cwotâu Rhywedd gael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2023 ond, ar yr adeg y cytunwyd ar ein hadroddiad, mae disgwyl amdano o hyd.⁴⁴ Nododd y Cwnsler Cyffredinol na fwriedir “i’r [Bil Cwotâu Rhywedd] newid unrhyw beth mewn cysylltiad â’r hyn sy’n cael ei gynnig” yn y Bil⁴⁵ a’i fod yn ymwneud â chyfres fwy cymhleth o lawer o faterion deddfwriaethol, a’i fod yn waith ar y gweill yn y bôn.⁴⁶

36. Pwysleisiodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol hefyd, fel rhan o uchelgais Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi’r llyfr statud i Gymru:

“Rydym yn bwriadu cymryd camau i gydgrynhoi’r gyfraith etholiadol yng Nghymru ar gyfer etholiadau datganoledig, fel rhan o’n nod tymor hwy o foderneiddio cyfraith etholiadol.”⁴⁷

37. Nododd y Cwnsler Cyffredinol hefyd fwriad Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi ac ailddatgan Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, (y Gorchymyn Cynnal Etholiadau), sy’n nodi’r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau i Senedd Cymru, cyn etholiad cyffredinol y Senedd yn 2026. Wrth wneud hynny, nododd y byddai’r egwyddorion sydd wedi’u nodi yn Neddf 2019 yn cael eu hystyried er mwyn “llunio Gorchymyn sy’n defnyddio iaith fodern a chlir sydd ar gael yn rhwydd i’r darllenydd”.⁴⁸

Ein barn ni

38. Rydym yn nodi barn y Cwnsler Cyffredinol nad yw’r Bil yn Fil arfaethedig gan y Llywodraeth. O’n dealltwriaeth ni, yn y bôn, rhesymeg y Cwnsler Cyffredinol yw bod y Bil yn adeiladu ar adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig, a nodwyd ac y cymeradwywyd ei argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi ar gyfer deddfwriaeth Diwygio’r Senedd, gan y Senedd yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Mehefin 2022.⁴⁹

39. Mae’r Bil yn un a gyflwynir gan aelod o Lywodraeth Cymru. Felly, Bil arfaethedig gan y Llywodraeth ydyw, er ei fod yn un y mae ei waith llunio wedi:

⁴³ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 10

⁴⁴ Gweler y Cyfarfod Llawn, [13 Rhagfyr 2023](#), Cofnod y Trafodion [111]

⁴⁵ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 10

⁴⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [18]

⁴⁷ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 15

⁴⁸ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 15

⁴⁹ Y Cyfarfod Llawn, [8 Mehefin 2022](#), Cofnod y Trafodion [179 i 440 a 535 i 537]

- cael ei lywio gan argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig, gyda rhai darpariaethau wedi'u cynnwys yn seiliedig ar ddatblygu argymhellion y Pwyllgor hwnnw;
- ystyried argymhellion adroddiad gan y Pwyllgor Busnes.

40. Yn nodedig, mae'n Fil sydd:

- yn cynnwys darpariaethau nad oedd wedi cael sylw yn adroddiadau'r Pwyllgor Diben Arbennig na'r Pwyllgor Busnes;
- yn deillio'n rhannol o Gytundeb Cydweithio 2021⁵⁰ fel y cydnabu'r Cwnsler Cyffredinol.⁵¹

41. Rydym hefyd yn nodi awgrym y Cwnsler Cyffredinol, drwy gysylltiad, nad oedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru dderbyn na gweithredu argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig. Rydym o'r un farn.

42. Mae'n ddilys i lywodraeth gyflwyno deddfwriaeth gyfansoddiadol, sydd, yn yr achos hwn, yn ceisio diwygio Senedd Cymru.

43. Fel Bil arfaethedig gan y llywodraeth, rydym yn disgwyl i'r Bil fynd rhagddo drwy'r Senedd fel y byddai unrhyw Fil arfaethedig arall gan y llywodraeth, gydag argymhellion a wnaed gan bwyllgorau'r Senedd naill ai'n cael eu derbyn neu eu gwrthod ac, wedi hynny, y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliannau yn seiliedig ar dderbyn yr argymhellion hynny, neu fel arall, ac yn seiliedig ar ei blaenoriaethau ei hun.

Casgliad 1. At ddibenion mynd â'r ddeddfwriaeth hon drwy'r Senedd, mae Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn Fil arfaethedig gan y llywodraeth.

44. Yn ei adroddiad, sef *The Process of Constitutional Change*, nododd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi y canlynol:

*"The nature of a significant constitutional change is that its impact will outlast whichever government initiated it."*⁵²

⁵⁰ Llywodraeth Cymru, *Y Cytundeb Cydweithio: 2021*, Tachwedd 2021. Gweler hefyd [Llythyr at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd, y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd gan Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru ac Adam Price AS, Arweinydd Plaid Cymru](#), 10 Mai 2022

⁵¹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 9 Gweler hefyd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [49, 87 ac 91]

⁵² Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, *The Process of Constitutional Change* (Saesneg yn unig), 15th Report of Session 2010-12, 18 Gorffennaf 2011, Papur 177 Tŷ'r Arglwyddi, paragraff 90

45. Rydym yn credu bod hwn yn bwynt pwysig ac, fel y mae adroddiad Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ei hun yn nodi, mae'n tynnu sylw at ddymunoldeb gwneud gwaith craffu cyn ac ar ôl deddfu mewn perthynas â deddfwriaeth gyfansoddiadol.⁵³

46. O ran gwaith craffu cyn deddfu, mae Biliau drafft yn rhoi cyfleoedd i ystyried manylion deddfwriaethol gwirioneddol cynigion cyn eu cyflwyno'n ffurfiol. Wrth wneud hynny, gallai pwyllgorau'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd drafod y manylion hynny â rhanddeiliaid ac ystyried yn gynnar sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig troi amcanion polisi yn gyfraith. Mae gwaith craffu cyn deddfu yn arbennig o bwysig ar gyfer Biliau cyfansoddiadol pan fo trafodaethau polisi, fel yr awgrymodd y Cwnsler Cyffredinol, yn aml wedi'u cynnal dros nifer o flynyddoedd ac, fel y mae Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi yn nodi, mae'n debygol y bydd gan y ddeddfwriaeth ei hun amserlen hwy na'r rhan fwyaf o Filiau eraill.

47. Rydym yn nodi barn y Cwnsler Cyffredinol ynghylch yr amserlenni tynn ar gyfer sicrhau bod y Bil, os caiff ei ddeddfu, yn cael y Cydsyniad Brenhinol mewn pryd i'r holl baratodau angenrheidiol ar gyfer etholiad cyffredinol y Senedd yn 2026 gael eu gweithredu a'u cwblhau. Er ein bod yn cydnabod y pwynt hwn, rydym hefyd yn credu ei bod yn hollbwysig cael y ddeddfwriaeth hon yn iawn oherwydd bod perygl, os na fydd y Bil a'i oblygiadau yn cael eu hystyried a'u trafod yn llawn, y gallai canlyniadau anfwriadol godi o ganlyniad i hynny.

Casgliad 2. O ystyried arwyddocâd y Bil ar gyfer cyfansoddiad Cymru, dylai lle fod wedi'i ganfod gyda'r amserlen i lunio Bil drafft a cheisio barn amdano.

48. Rydym yn ystyried gwaith craffu ar ôl deddfu fel rhan o'n hystyriaeth o adran 19 o'r Bil ym Mhennod 4.

49. Rydym yn nodi esboniad y Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y defnydd (o bosibl) o dri Bil mewn 12 mis i sicrhau newidiadau i gyfraith etholiadol yng Nghymru. Fel y nodwyd eisoes, mae dyletswydd bellach ar Weinidogion Cymru i adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd ar ei chynlluniau i wella hygyrchedd o'r fath. Er ein bod yn cydnabod y rhesymau a gyflwynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol ar gyfer tri darn gwahanol a newydd o ddeddfwriaeth sylfaenol, mae gennym bryderon y bydd dull o'r fath yn ychwanegu at lyfr statud sydd eisoes yn gymhleth ac nid yw hyn yn ddelfrydol.

50. Serch hynny, rydym yn croesawu sylwadau cadarnhaol y Cwnsler Cyffredinol am gydgrynhoi cyfraith etholiadol dros y tymor hwy.

⁵³ Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, The Process of Constitutional Change (Saesneg yn unig), 15th Report of Session 2010-12, 18 Gorffennaf 2011, Papur 177 Tŷ'r Arglwyddi, paragraffau 91 i 95 a 102 i 104

51. Fel rhan gychwynnol o'r broses honno, rydym hefyd yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gydgrynhoi ac ailddatgan y Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

52. Rydym yn nodi bod rhywfaint o wybodaeth wedi'i rhoi i'r Pwyllgor Biliau Diwygio ynghylch amseriad y Gorchymyn Cynnal Etholiadau.⁵⁴ Fodd bynnag, o gofio ein rôl wrth graffu ar y darn pwysig hwn o is-ddeddfwriaeth, byddem yn croesawu arwydd cynnar a manylach gan y Cwnsler Cyffredinol pryd y mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau'n debygol o gael ei osod ar gyfer gwaith craffu.

Argymhelliad 3. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ysgrifennu at y Pwyllgor i roi manylion am yr amserlen i lunio a gweithredu ail-ddatganiad Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (y Gorchymyn Cynnal Etholiadau) a chraffu arno, sy'n ofynnol ar gyfer etholiad cyffredinol y Senedd yn 2026.

53. Byddwn yn trafod adrannau penodol o'r Bil yn y bennod nesaf.

54. Fodd bynnag, fel sylw cyffredinol, rydym yn pryderu bod Bil y mae ei nodau'n cynnwys cynyddu manylder gwaith craffu ar y Senedd a'i chapasiti i ddwyn Llywodraeth Cymru y dydd i gyfrif yn ceisio dylanwadu ar system pwyllgorau'r Seithfed Senedd a chyfyngu arni o bosibl, a ddylai fod yn fater i'r Senedd honno benderfynu arno.

55. Rydym yn nodi bod pum pŵer dirprwyedig yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth ac rydym yn ystyried rhai o'r rhain ym Mhennod 4.

⁵⁴ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol at David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio, 1 Rhagfyr 2023

4. Sylwadau penodol ar adrannau yn y Bil a'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

56. Mae'r Bil yn cynnwys 25 o adrannau a dwy Atodlen. Mae'n cael ei rannu'n bum Rhan:

- Rhan 1 – Y Senedd a Gweinidogion Cymru;
- Rhan 2 – Y system bleidleisio mewn etholiadau cyffredinol y Senedd a dyrannu seddi;
- Rhan 3 – Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru;
- Rhan 4 – Adolygu ffiniau etholaethau'r Senedd;
- Rhan 5 – Adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc. a darpariaethau cyffredinol.

57. Mae pum darpariaeth yn y Bil sy'n cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau.⁵⁵ O'r pum pŵer hyn:

- mae dau bŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol;
- mae un pŵer yn ddarostyngedig naill ai i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol neu'r weithdrefn penderfyniad negyddol, gan ddibynnu a ddefnyddir y pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol;
- nid yw dau bŵer yn ddarostyngedig i weithdrefn.

58. Mae ein hystyriaeth isod yn canolbwyntio ar adrannau penodol a phwerau gwneud rheoliadau yn yr adrannau hynny rydym am eu pwysleisio ac, yn unol â hynny, eu tynnu at sylw'r Senedd.

⁵⁵ Mae crynodeb o'r pwerau hyn yn y Memorandwm Esboniadol, sef Pennod 5: Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

Rhan 1 - Y Senedd a Gweinidogion Cymru

Adran 4 - Dirprwy Lywydd ychwanegol

59. Mae adran 4 yn gwneud darpariaeth i'r Senedd gael ethol ail Ddirprwy Lywydd, yn ogystal â'r Dirprwy Lywydd y mae'n rhaid ei ethol yng nghyfarfod cyntaf y Senedd o dan adran 25(1)(b) o Ddeddf 2006.

60. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol pam na wnaeth adran 4 o'r Bil ailadrodd y rhan fwyaf o adran 25 o Ddeddf 2006 er hwylustod darllen, yn hytrach na gwneud nifer o ddiwygiadau ar wahân i adran 25 yng nghorff adran 4. Wrth wneud hynny, gwnaethom gydnabod na ellid disodli adran 25 o Ddeddf 2006 yn ei chyfanrwydd am resymau cymhwysedd deddfwriaethol. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

"Yn sylfaenol, dull o ddrafftio oedd hwn, er ei fod hefyd yn adlewyrchu nad yw swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Dirprwy Lywydd presennol fel y darperir ar eu cyfer o dan adran 25(1)(b) wedi newid.

Cafodd Atodlen Keeling ei chynnwys yn atodiad 3 i'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil er mwyn gwneud y darllen yn haws.

Yn ogystal, fel y cyfeirir ato yn y cwestiwn hwn, ...ni all y llywodraeth ddatgan y byddai ganddi hyder llawn y byddai diwygiadau i adran 25(1)(a) - sy'n creu swydd Llywydd ac sy'n nodi sut y cyfeirir at y swydd honno yn Neddf Llywodraeth Cymru - o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."⁵⁶

Ein barn ni

61. Rydym yn nodi sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch dull Llywodraeth Cymru o ddrafftio adran 4 o'r Bil.

62. Mae'n anodd dirnad effaith gyffredinol y diwygiadau i adran 25 o Ddeddf 2006 fel y darperir yn adran 4 o'r Bil heb gyfeirio at yr Atodlen Keeling yn Atodiad 3 (Atodlen Diwygiadau) o'r Memorandwm Esboniadol. Er ein bod yn croesawu'r eglurder y mae Atodiad 3 yn ei ddarparu, nid yw'n gyfystyr â darparu gwybodaeth ar wyneb y Bil. At hynny, diben Memorandwm Esboniadol yw helpu gyda gwaith craffu gan y senedd, yn hytrach na chynorthwyo'r darllenydd os bydd Bil yn dod

⁵⁶ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 11

yn Ddeddf. Y ffordd orau o ddiwallu'r diben olaf yw drwy ddiwygio wyneb y ddeddfwriaeth, yn enwedig i'r bobl nad oes ganddynt fynediad at gronfeydd data y tansysgrifir iddynt, megis Westlaw.

63. Mae'r gwaith drafftio anhygyrch yn adran 4 o'r Bil yn cyferbynnu'n llwyr ag adran 8 o'r Bil, sy'n atgynhyrchu, gyda diwygiadau priodol, adrannau 6 i 8 o Ddeddf 2006 fel ei bod yn hawdd eu darllen.

64. Nodwn mai effaith paragraff 7(2)(ix) o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 yw na chaniateir addasu adran 25(1)(a) o'r Ddeddf honno (ac felly mae'n gyfyngiad ar gymhwysedd). Fel y cyfryw, rydym yn cydnabod nad yw'n bosibl cydgrynhoi'r cyfan o adran 25 o Ddeddf 2006.

Argymhelliad 4. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gadarnhau a fyddai'r mater a gedwir yn ôl mewn perthynas ag adran 25(1)(a) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yn ei farn ef, yn atal ailddatgan y Bil ai peidio.

65. Er gwaethaf y safbwynt o ran adran 25(1)(a) o Ddeddf 2006, rydym yn credu y byddai hyd yn oed cydgrynhoed rhannol o adran 25 yn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch. Wrth ddod i'r farn hon, rydym hefyd yn nodi sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol mai'r dull a fabwysiadwyd yn adran 4 o'r Bil oedd "Yn sylfaenol ... [yn d]dull o ddrafftio".

Argymhelliad 5. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno diwygiad i adran 4 o'r Bil at ddiben cydgrynhoi (ac yn amodol ar argymhelliad 4 ailddatgan) adran 25 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, o fewn ffiniau cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Argymhelliad 6. Os na ellir cyflawni argymhelliad 5 oherwydd cyfyngiadau yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*, yn hytrach na'i fod yn ddewis drafftio, dylai'r Cwnsler Cyffredinol roi esboniad manwl dros hyn.

Adran 5 - Cynyddu nifer uchaf Gweinidogion Cymru

66. Mae adran 5 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnydd i nifer uchaf Gweinidogion Cymru a all ddal swydd ar yr un pryd, o 12 i 17, gan gynnwys Dirprwy Weinidogion (ond nid y Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol). Mae'n cyflawni'r newid hwn drwy ddiwygio adran 51 (Cyfyngiad ar nifer y Gweinidogion) o Ddeddf 2006.

67. Mae adran 5 hefyd yn cynnig pŵer gwneud rheoliadau i gynyddu nifer Gweinidogion Cymru i hyd at 19. Byddai'r rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn

datgan bod y lefel ychwanegol o graffu yn briodol o gofio y byddai'r pŵer yn "amrywio'r terfyn uchaf ar nifer Gweinidogion Cymru a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol".⁵⁷ Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer gwneud rheoliadau'n datgan y canlynol:

"Os daw i rym, nid oes disgwyliad i ddefnyddio'r pŵer hwn ar unwaith i gynyddu'r uchafswm presennol. Byddai'n angenrheidiol i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gyfiawnhau pam fod amgylchiadau'n golygu bod angen cynyddu'r terfyn o ran nifer y Gweinidogion Cymru y tu hwnt i 17. Gallai hyn fod o ganlyniad i ddatganoli pwerau deddfwriaethol, neu fel arall gallai fod amgylchiadau penodol pan fo cynnydd yn cael ei deilyngu. ...

Mae effaith y pŵer hwn yn barhaol. Unwaith y bydd y pŵer wedi'i arfer i gynyddu'r terfyn o fewn yr ystod a ganiateir, bydd hynny'n dod yn derfyn statudol ar gyfer y Senedd honno a holl Seneddau'r dyfodol, oni bai, a hyd nes, y caiff y pŵer ei arfer i gynyddu'r terfyn eto, hyd at uchafswm o 19. Fodd bynnag, byddai Prif Weinidogion y dyfodol yn parhau i allu dewis penodi llai o Weinidogion Cymru na'r uchafswm a ganiateir mewn deddfwriaeth.

Caiff y pŵer hwn ei gynnwys yn y Bil yn dilyn argymhelliad gan Bwyllgor Busnes y Senedd y byddai'n "rhesymol i'r ddeddfwriaeth gynnwys mecanwaith a fyddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i gynnig cynyddu'r terfyn hwn ymhellach i uchafswm o 19 drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth ar gyfer datganoli rhagor o bwerau yn y dyfodol, neu amgylchiadau eraill lle'r ystyrir bod cynnydd yn deilwng."⁵⁸

68. Wrth i ni ystyried adran 5, nodwyd bod y Cwnsler Cyffredinol (yn y Datganiad o Fwriad y Polisi) wedi nodi nad oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r pwerau i gynyddu nifer Gweinidogion Cymru i 19. Felly, gofynnwyd pam y cymerwyd y pwerau. Wrth ymateb, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

"It would only be able to be achieved by an affirmative vote of the Senedd itself. So, the Senedd would have to approve. There

⁵⁷ Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 125

⁵⁸ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol at David Rees AS, Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio, 18 Medi 2023, yn amgáu Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

*would be no obligation on the First Minister to actually do that. At the moment, as things stand, the figure of 17 is what is considered that would be appropriate for the 2026 Senedd, but there is a capacity to futureproof whereby the First Minister can come back and actually say, 'Well, we have certain additional responsibilities that have been given; we need to create an additional ministerial post. Do you approve?' And that would be a vote of the Senedd in order to achieve that."*⁵⁹

69. Gofynnwyd hefyd sut y cyrhaeddwyd y ffigur 17 a pham na chynhwyswyd y ffigur 19 ar wyneb y Bil, yn hytrach na rhoi i Weinidog arall mewn Senedd arall ar adeg arall y potensial i wneud y newid hwnnw ei hun. Wrth ymateb, dywedodd swyddog gyda'r Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

*"The special purpose committee recommended that there should be an increase, but asked the Business Committee of the Senedd to look at it in more detail. ... it was a conclusion of the Business Committee that it should be raised to 17— ... it's currently 12 Ministers plus the First Minister and the Counsel General—so, to raise it to 17, but also to have that ability to increase it further through a delegated power, with the approval of the Senedd."*⁶⁰

70. Pan ofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a fyddai Bil newydd yn gyfansoddiadol fwy priodol na defnyddio pŵer gwneud rheoliadau, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

"Penderfynodd Llywodraeth Cymru gynyddu nifer Gweinidogion Cymru yn sgil argymhelliad gan Bwyllgor Busnes y Senedd yn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2022.

(...)

*Fel y dywedodd y Pwyllgor Busnes, gallai hyn fod o ganlyniad i ddatganoli rhagor o bwerau, neu amgylchiadau eraill lle'r ystyrir bod cynnydd yn deilwng."*⁶¹

71. Gwnaethom ofyn pam nad oes pŵer yn adran 5 i ostwng y terfyn uchaf ar nifer Gweinidogion Cymru drwy reoliadau yn y dyfodol ar ôl i'r pŵer gael ei

⁵⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [58]

⁶⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [63]

⁶¹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 1

ddefnyddio, er enghraifft, i gynyddu'r terfyn dros dro at ddibenion penodol. Yn ei ymateb, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

"Yn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2022, dywedodd Pwyllgor Busnes y Senedd ar y mater hwn y dylai "unrhyw gynnydd arfaethedig, ar ôl cytuno arno gan y Senedd, fod yn barhaol." Mae'r Bil yn adlewyrchu'r casgliad y daethpwyd iddo.

*Gellir nodi hefyd fod y pŵer yn darparu ar gyfer cynyddu'r terfyn uchaf ar nifer Gweinidogion Cymru, ac nid y terfyn isaf. O ganlyniad, yn ymarferol byddai Prif Weinidog yn rhydd i ddewis peidio â phenodi i'r terfyn uchaf hwnnw, heb fod angen deddfwriaeth bellach."*⁶²

72. Bil sy'n ymwneud â phwnc gwarchoddedig a nodir yn adran 111A o Ddeddf 2006⁶³ sy'n gofyn cymeradwyaeth dwy ran o dair o gyfanswm yr Aelodau o'r Senedd i'w basio. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'uwchfwyaf' o'r Senedd.

73. O ran pam y dylid cymhwysu'r weithdrefn gadarnhaol i wneud rheoliadau o dan adran 5 yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i uwchfwyafrif o'r holl Aelodau o'r Senedd bleidleisio o blaid, esboniodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

"Yn ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2022, dywedodd Pwyllgor Busnes y Senedd:

"Mae mwyafrif ein haelodaeth o'r farn y dylai pleidlais o'r fath gael ei phasio ar fwyafrif syml, ond dywedodd Darren Millar y dylai fod angen cefnogaeth dwy ran o dair yr Aelodau sy'n pleidleisio."

Gan y byddai angen i (uwchfwyafrif) o'r Senedd gytuno ar yr egwyddor y dylid cynyddu uchafswm y Gweinidogion i 17 ac y gellir ei gynyddu ymhellach o fewn ystod gyfyngedig, ystyriwyd ei bod yn gymesur y dylai unrhyw reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn unol â chasgliad y Pwyllgor Busnes.

Bydd y weithdrefn gadarnhaol yn sicrhau bod gan y Senedd rôl wrth gymeradwyo unrhyw gynnydd ym maint y llywodraeth ac mae'n adlewyrchu'r ffaith y bydd unrhyw reoliadau sy'n newid y

⁶² Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 2

⁶³ [Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 111A](#)

*terfyn uchaf ar faint y llywodraeth yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.*⁶⁴

Ein barn ni

74. Rydym yn nodi sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch adran 5 o'r Bil.

75. Mae mwyafrif o'r Pwyllgor o'r farn mai dull amgen fyddai i adran 5 osod terfyn uchaf o Weinidogion Cymru ar wyneb y Bil (er enghraifft, 17, 18 neu 19) a dileu'r darpariaethau sy'n caniatáu i'r ffigur gael ei ddiwygio drwy reoliadau. Fel y nododd y Cwnsler Cyffredinol, byddai Prif Weinidog yn y dyfodol yn rhydd i ddewis peidio â phenodi i'r terfyn uchaf hwnnw o Weinidogion Cymru. Byddai dileu'r pŵer gwneud rheoliadau yn adran 5(b) o'r Bil yn sicrhau y byddai newidiadau yn y dyfodol i'r terfyn ar nifer y Gweinidogion Cymreig a ddarperir gan adran 51(1) o Ddeddf 2006 yn gofyn Bil arall, rywbryd yn y dyfodol, a all gynnig dull mwy cyfansoddiadol briodol o gofio arwyddocâd y newid. Gall Bil o'r fath godi, er enghraifft, o ganlyniad i waith craffu ar ôl deddfu (gweler ein hystyriaeth o adran 19 o'r Bil).

76. Felly, mae mwyafrif o'r Pwyllgor o'r farn na ddylai adran 51 o Ddeddf 2006, sy'n darparu'r terfyn ar nifer Gweinidogion Cymru, allu cael ei diwygio drwy reoliadau. Dylai adran 5(a) o'r Bil sy'n diwygio adran 51 o Ddeddf 2006 ddarparu'r terfyn ar nifer Gweinidogion Cymru.

77. Mae un aelod o'r Pwyllgor, Luke Fletcher AS, yn fodlon ar adran 5 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'r Senedd.

Argymhelliad 7. Mae mwyafrif o'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno gwelliant i'r Bil i hepgor adran 5(b).

Adran 6 – Anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd

78. Mae adran 6 yn cynnig anghymwysu person nad yw wedi ei gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad o fewn etholaeth Senedd rhag sefyll etholiad i'r Senedd, neu rhag aros fel Aelod o'r Senedd. Mae adran 6 yn cyflawni hyn drwy fewnosod paragraff newydd (paragraff 8) yn Atodlen 1A o Ddeddf 2006.

79. O ran adran 6 o'r Bil, gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol esbonio nod Llywodraeth Cymru wrth fynd ar drywydd cyflwyno gofynion preswyllo ar gyfer ymgeiswyr. Dywedodd y canlynol wrthym:

⁶⁴ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 3

*"I think it's relatively straightforward. Firstly, in terms of residency, residency is well defined within existing legislation in terms of the Representation of the People Act 2000, so that gives clarity in terms of the residency qualification there. The question is, really, whether it is appropriate that persons who don't live within Wales, who are not subject to the laws of Wales, should be in a position to actually make the laws of Wales that do apply to the people of Wales. So, I think it is a very basic democratic feature for us as a new democracy ... it seems to me to be a logical parameter in terms of the reforms that we're carrying forward."*⁶⁵

80. Wrth ymateb i gwestiynau sy'n edrych ar y polisi y tu ôl i adran 6, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol nad ystyriwyd bod atal rhywun nad yw'n byw yng Nghymru rhag sefyll mewn etholiad Senedd yn fater o gydraddoldeb,⁶⁶ ac ychwanegodd y canlynol:

*"... the reality is that I think you still come back to the same thing, which is that you have to set a framework, you have to draw a line somewhere within which residency is the criteria, (...) It seems to me it fits very much within the democratic framework that would be appropriate within Wales, if you accept the principles that candidates should live within Wales, they should not only be accountable to the laws of Wales, as well as the fact that they would actually be making the laws of Wales."*⁶⁷

81. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a fyddai person a oedd â phrif gyfeiriad yn Lloegr ond ail gartref yng Nghymru yn bodloni'r gofyniad preswyllo ar gyfer sefyll mewn etholiad cyffredinol Senedd. Nododd y byddai hynny'n digwydd, gan ddatgan mai'r unig ofyniad yw bod ar y gofrestr etholiadol ac os yw rhywun ar y gofrestr etholiadol, mae'n gymwys i fod yn ymgeisydd ac i sefyll i ddod yn Aelod o'r Senedd,⁶⁸ gan ychwanegu'r canlynol:

⁶⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [34]

⁶⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [45]

⁶⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [49]; At hynny, gweler y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Cofnod y Trafodion [34 i 51] ar gyfer trafodaeth gyffredinol ar y mater hwn.

⁶⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [53]

“... it’s simple, it’s clear, and it’s one that probably is the clearest in terms of ensuring there is no confusion as to qualifying rights.”⁶⁹

Ein barn ni

82. Rydym yn nodi sylwadau’r Cwnsler Cyffredinol ar adran 6 o’r Bil.

83. Rydym wedi ystyried cydnawsedd adran 6 o’r Bil â hawliau dynol ym Mhennod 2 o’r adroddiad, fel rhan o’n hystyriaeth o’r cwestiwn a yw’r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

84. Rydym yn nodi, mewn egwyddor ac fel y cydnabuwyd gan y Cwnsler Cyffredinol, y gellir cynnwys person ar y gofrestr etholiadol mewn cyfeiriad yng Nghymru ond bod ei brif breswylfa y tu allan i Gymru dan rai amgylchiadau. Byddai personau o’r fath yn cael sefyll etholiad a dim ond os byddent yn peidio â bod ar y gofrestr y byddent yn cael eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o’r Senedd os byddant yn cael eu hethol.

85. Rydym yn nodi barn y Cwnsler Cyffredinol bod yn rhaid tynnu llinell rywle a bod y diwygiad i Atodlen 1A o Ddeddf 2006 fel y nodir yn adran 6 o’r Bil yn darparu symrlrwydd ac eglurder.

86. Serch hynny, mae’n ymddangos, fel y’i drafftwyd, y byddai adran 6 yn caniatáu i berson, er enghraifft, brynu eiddo yng Nghymru at ddiben sefyll etholiad yn unig, ar yr amod ei fod wedi’i gofrestru ar y gofrestr etholiadol yn y cyfeiriad hwnnw. Rydym o’r farn y byddai hynny’n groes i ddiben arfaethedig adran 6 o’r Bil.

87. Yn ein trafodaethau am y diben y tu ôl i adran 6, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

“The question is, really, whether it is appropriate that persons who don’t live within Wales, who are not subject to the laws of Wales, should be in a position to actually make the laws of Wales that do apply to the people of Wales.”

88. Rydym yn nodi’r ddadl hon ond byddem yn pwysleisio nad yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r rhesymeg hon wrth gytuno i ddefnyddio Biliau’r DU i ddeddfu mewn meysydd datganoledig yn Senedd y DU.

⁶⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [55]

Adran 7 – Adolygiad o'r posibilrwydd o rannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd

89. Mae adran 7 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywydd y Senedd gyntaf a etholir ar ôl 6 Ebrill 2026 gyflwyno cynnig (cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn cyfarfod cyntaf y Senedd honno, ond o fewn chwe mis i'r cyfarfod hwnnw sut bynnag) yn cynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor i adolygu'r graddau y dylai personau allu dal swydd berthnasol ar y cyd (h.y. 'rhannu swydd') neu ddal swydd berthnasol dros dro tra nad yw'r person sy'n dal y swydd honno ar gael.

90. Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn datgan yn y Memorandwm Esboniadol fel a ganlyn:

"Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r Senedd ei hun a ddylai arwain unrhyw adolygiad o rannu swyddi, gan sicrhau bod mecanwaith effeithiol i Lywodraeth Cymru chwarae ei rhan wrth ymateb i unrhyw argymhellion ac wrth amlinellu'r camau nesaf. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi effaith, cyn belled ag y bo modd, i'r egwyddor a sefydlwyd gan y Pwyllgor Diben Arbennig sef:

*"y dylid rhoi ystyriaeth bellach, ar sail drawsbleidiol, i archwilio dichonoldeb a heriau deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â galluogi etholiad ar sail rhannu swydd".*⁷⁰

91. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a yw'n gyfansoddiadol briodol i Fil arfaethedig gan y Llywodraeth, yng nghyd-destun adran 7 (ac adran 19) o'r Bil, osod dyletswydd ar y Llywydd yn y Seithfed Senedd i gyflwyno cynigion mewn perthynas â sefydlu dau bwyllgor Senedd newydd. Wrth ymateb, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

*"Can I say that I think it is? I think this isn't a traditional Government Bill in that sense—this is Government facilitating legislation that it is bringing, but it's on behalf of the Senedd. There can be semantics about how that is interpreted, but the Welsh Government is not determining, effectively, the policy. We know there are obviously discussions that go on through the co-operation agreement and so on. We're talking about the two things: job sharing and the review."*⁷¹

⁷⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraff 206, y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Mai 2022, argymhelliad 13

⁷¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Gyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [85]

92. Ychwanegodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

“Job sharing is an issue that has arisen in the special purpose committee, but in particular from the co-operation agreement. Again, it doesn’t in any way create any legislative obligation. What it does is ensure that it will be debated or be on the floor. How the Senedd chooses to deal with that, the nature of that debate, the parameters of that debate, will be completely a matter for the Senedd. So, it means that it will be discussed, but it goes no further than that.”⁷²

93. Pwysleisiodd y Cwnsler Cyffredinol fod y ddyletswydd yn rhywbeth sydd wedi dod drwy’r cytundeb cydweithio i sicrhau bod hyn yn digwydd⁷³ ond nododd y canlynol hefyd:

“... once that motion is tabled, it is completely a matter that’s within the ambit of the Senedd. The Senedd could, in fact, do it in any event, but I think it was felt appropriate that this would strengthen that happening by having it on the face of the Bill.”⁷⁴

94. Dywedodd swyddog gyda’r Cwnsler Cyffredinol y dewiswyd y Llywydd ar gyfer y dasg o ystyried rôl y Llywydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes a’i ystyriaeth o drefnu pwyllgorau.⁷⁵**95.** Pan wnaethom ofyn a roddwyd ystyriaeth i osod dyletswydd o bosibl i gyflwyno’r cynnig o dan adran 7 (ac adran 19) i Weinidogion Cymru, ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol drwy ddweud y canlynol:

“I think from the starting principle that this is a Bill that emanates from recommendations from the Senedd itself, it seems to me this is also a matter for the Senedd rather than government to determine. It belongs to the Senedd, and where it proceeds beyond the tabling of the motion is ultimately a matter for the Senedd.”⁷⁶

⁷² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [87]

⁷³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [91]

⁷⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [91]

⁷⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [92]

Mae adran 28 (Pwyllgorau ac is-bwyllgorau) ac adran 31 (Rheolau Sefydlog) o Ddeddf 2006, yn benodol, yn gwneud darpariaeth ynghylch pwyllgorau. Caiff y Pwyllgor Busnes ei sefydlu yn unol â [Rheol Sefydlog 11](#).

⁷⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [94]

96. Ychwanegodd y canlynol:

*"I think it is the Senedd asking the Government to put this on the face of the Bill, rather than the other way round."*⁷⁷

97. Gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol a fyddai adran 7 o'r Bil yn dod yn ddiangen pe bai Llywodraeth newydd Cymru yn cyhoeddi datganiad ar rannu swydd, er enghraifft, ym mlwyddyn gyntaf y Seithfed Senedd. Atebodd drwy ddweud y byddai adran 7 yn "parhau mewn grym hyd yn oed pe bai Llywodraeth newydd Cymru yn cyhoeddi datganiad."⁷⁸

98. Pan wnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol esbonio pam na fyddai Llywodraeth newydd Cymru yn rhwym i gymryd camau mewn perthynas ag argymhellion pwyllgor a sefydlir o dan adran 7, dywedodd y:

"Byddai Llywodraeth Cymru, fel sy'n arfer sefydledig, yn ymateb i adroddiadau ac argymhellion pwyllgorau sy'n cael eu cyfeirio ati. Nid yw'r Bil yn gorfodi llywodraeth y dydd i dderbyn argymhellion pwyllgor a sefydlwyd i adolygu'r trefniadau rhannu swyddi.

*Yn hytrach, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod datganiad mewn ymateb i adroddiad pwyllgor o'r fath. Byddai natur yr ymateb, gan gynnwys unrhyw gamau i'w cymryd gan y llywodraeth, yn dibynnu ar yr argymhellion a wneir gan unrhyw bwyllgor. Mae'r ddarpariaeth yn cynnig dull gweithredu sy'n dilyn y model gwaith a arweiniodd at Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), lle ystyriodd un o bwyllgorau'r Senedd y mater cyn gwneud argymhellion a gafodd eu gweithredu wedyn gan y llywodraeth."*⁷⁹

99. Esboniodd y Cwnsler Cyffredinol pam nad oes darpariaeth yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol gyhoeddi Bil drafft sy'n ymwneud â rhannu swydd ac ymgynghori arno. Dywedodd y canlynol:

"Byddai gwneud hynny yn gynamserol ac yn achub y blaen ar ganlyniad gwaith pwyllgor. Mae'n bosibl na all pwyllgor wneud argymhellion y gellir eu gweithredu drwy ddeddfwriaeth, ac

⁷⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [96]

⁷⁸ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 4

⁷⁹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 5

*felly ni fyddai'n briodol ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth yn y dyfodol gymryd cam o'r fath ar hyn o bryd.*⁸⁰

100. Pan wnaethom ofyn pa opsiynau eraill roedd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

*"Well, the only other option is, really, not to put it in the Bill at all, on the basis that the Senedd could do it in any event, and there isn't a strict necessity for the Llywydd to have that duty imposed."*⁸¹

101. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd os nad yw'r Senedd am wneud rhywbeth, yn y bôn, na fydd yn digwydd.⁸²

Ein barn ni

102. Rydym yn nodi barn y Cwnsler Cyffredinol am adran 7 o'r Bil.

103. Nid mater i'r Pwyllgor hwn yw ystyried egwyddor neu rinweddau rhannu swyddi ac nid yw'r adroddiad yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn.

104. Ein ffocws fu ystyried priodoldeb cyfansoddiadol adran 7 ac a ddylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r Chweched Senedd basio deddfwriaeth a fyddai'n gosod dyletswyddau ar y Seithfed Senedd a'i Llywydd. Fel y cyfryw, mae ein hadroddiad yn ymwneud â'r broses a ddarperir gan adran 7 yn unig.

105. Mae adran 7 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n rhwymo Llywydd y Seithfed Senedd i gymryd camau penodol, sef cyflwyno cynnig i sefydlu pwyllgor.

106. Datgenir y canlynol yn Craies on Legislation:

*"The only thing that an Act of Parliament cannot do is constrain the freedom of action of a future Parliament."*⁸³

107. Rydym yn gwneud y sylwadau a ganlyn ar adran 7 o'r Bil:

- mae datblygu polisi yn dasg sylweddol sy'n gofyn arbenigedd ac adnoddau priodol ac sydd, yn bennaf, yn fater i'r llywodraeth;

⁸⁰ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 6

⁸¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [103]

⁸² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [105]

⁸³ Craies on Legislation: A Practitioners' Guide to the Nature, Process, Effect and Interpretation of Legislation (Saesneg yn unig), Deuddegfed Argraffiad, Adran 2, Potential scope of Act (Saesneg yn unig), tudalen 119

- mewn Bil i gynyddu capasiti'r Senedd i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif, mae'n ymddangos yn wrth-reddfol, ac yn gyfansoddiadol amhriodol, i lywodraeth yn y Chweched Senedd gynnig drwy Fil bod yn rhaid i'r Llywydd yn y Seithfed Senedd gyflwyno cynnig bod pwyllgor yn cael ei sefydlu at ddiben datblygu polisi;
- os yw Llywodraeth newydd Cymru ym mlwyddyn gyntaf y Seithfed Senedd yn cyhoeddi ei pholisi ar rannu swyddi ac, ar ôl i gynnig i sefydlu pwyllgor yn unol ag adran 7(1) gael ei basio, ni fyddai fawr o ddiben i'r pwyllgor hwnnw ymgymryd â'i waith, yn anad dim oherwydd na fyddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru, fel y cydnabu'r Cwnsler Cyffredinol, ystyried ei argymhellion;
- os caiff y Bil ei ddeddfu, os derbynnir cynnig yn y Seithfed Senedd ac os sefydlir y pwyllgor perthnasol, nid oes sicrwydd y bydd y gwaith datblygu polisi yn cael ei weithredu gan y Llywodraeth, gan ddwyn amheuaeth o'r defnydd o adnoddau'r Senedd y byddai'n well eu defnyddio ar waith craffu a dwyn y Llywodraeth i gyfrif;
- byddai pwyllgor a sefydlir yn y Seithfed Senedd gyda'r cylch gorchwyl priodol mewn sefyllfa dda i graffu ar gynigion gan Llywodraeth Cymru ar rannu swyddi a gynhwysir mewn papur gwyrdd, papur gwyn a Bil drafft a gyhoeddir ar gyfer ymgynghoriad.

108. Yn sgil ein sylwadau uchod, rydym o'r farn nad yw adran 7 o'r Bil yn gyfansoddiadol briodol ac y gellid ystyried ei bod yn ymyrryd ar gapasiti'r Senedd i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Casgliad 3. Mae rhannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd yn fater y gallai'r Senedd nesaf a Llywodraeth nesaf Cymru ei ystyried yn unol â'u priod swyddogaethau, ac nid yw adran 7 o'r Bil yn fecanwaith priodol i'w gwneud yn ofynnol i'r ddau sefydliad ystyried mater o'r fath.

Argymhelliad 8. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ystyried ein sylwadau ar adran 7 o'r Bil a'i phriodoldeb cyfansoddiadol, ac ystyried a yw'n briodol cynnwys adran 7 yn y Bil.

Argymhelliad 9. Os bydd y Cwnsler Cyffredinol yn penderfynu cadw adran 7 yn y Bil, dylai ysgrifennu at y Pwyllgor a'r holl Aelodau o'r Senedd cyn y ddadl yng Nghyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil a nodi'n fanwl pam y mae'n gyfansoddiadol briodol i Lywodraeth Cymru ofyn i'r Chweched Senedd basio deddfwriaeth a fyddai'n gosod dyletswyddau ar y Seithfed Senedd a'i Llywydd,

gan dorri'r egwyddor, wrth wneud hynny, na ddylai Deddf Senedd gyfyngu ar ryddid Senedd yn y dyfodol i weithredu.

109. Wrth wneud argymhellion 8 a 9, rydym am ailadrodd nad ydym yn ceisio amau rhinweddau rhannu swyddi o gwbl, gan fod hwnnw'n fater ar wahân nad yw'n lle i'r Pwyllgor hwn fynegi barn amdano.

Rhan 2 - Y system bleidleisio mewn etholiadau cyffredinol y Senedd a dyrannu seddi

Adran 9 - Seddi gwag

110. Mae adran 8 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer newid system etholiadol y Senedd (drwy roi adrannau newydd yn lle adran 6 i 9 o Ddeddf 2006) fel y caiff yr holl Aelodau eu hethol dan system cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig, gyda phleidleisiau'n troi'n seddi drwy fformiwla D'Hondt.

111. Mae adran 9 o'r Bil yn diwygio Deddf 2006 er mwyn nodi'r sefyllfa ynghylch seddi sy'n digwydd dod yn wag rhwng etholiadau yn y system cynrychiolaeth gyfrannol newydd â rhestrau caeedig. Wrth wneud hynny, mae'n diddymu adran 10 (Seddi gwag mewn etholaethau) ac yn rhoi adran 11 newydd (Seddi gwag) yn lle'r adran 11 bresennol (Seddi gwag mewn rhanbarthau etholiadol). Mae adran 9 o'r Bil yn darparu y bydd seddi gwag yn cael eu llenwi gan y person cymwys nesaf ar y rhestr gaeedig berthnasol, gan osgoi'r angen am is-etholiadau.

112. Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol am oblygiadau adran 9 ar gyfer sefyllfaoedd pan fydd:

- i. aelod annibynnol yn cael ei ethol ond yna, er enghraifft, ei fod yn ymddiswyddo heb ymgeiswyr ar gael o restr i gymryd lle'r ymgeisydd hwnnw;
- ii. yr holl ymgeiswyr ar restr plaid wleidyddol wedi'u defnyddio mewn etholaeth.

113. Ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol:

"I suppose the starting point is that, looking at the experience of the past couple of decades, really, the number of situations where this has arisen—because we obviously have a closed list system already for one third of the seats—has been very remote. But it's a valid point to raise, and it's one that a lot of thought has been given to. I think the view we've come to is this: if we're

*now establishing what is a wholly proportional system using the closed list system, if that, I suppose, fairly rare situation might arise where the list of eight is exhausted, that is, there are six Members there, it's unlikely that any single party is going to win all six of those, so you'd have to be going down through quite a number of places before you actually exhausted that list, but, if you came to the end of that, well, then that remains vacant. The same would be the case if there was an independent that stood, and that person for some reason either became disqualified or for some reason wasn't there. And it is one of those areas we've had to give a lot of thought to as to, 'Well, should there be a mechanism for replacing that individual?' And again, I'm open to thoughts on this."*⁸⁴

114. Nododd y Cwnsler Cyffredinol anawsterau gyda mecanwaith o'r fath:

*"... what you are then beginning to do is disturb the proportionality basis on which the electoral system actually works itself. My view is that that probably is acceptable within a system of where you are increasing the number of Senedd Members from 60 to 96. But it does mean that it is a possibility; it might be very rare, or may not happen at all during the lifetime of a Senedd, but it is a possibility that is there. But I think the conclusion that I've come to on this is that it should remain vacant. I think that was also probably the position of the special purpose committee on that, were that situation to arise."*⁸⁵

115. Cydnabu'r Cwnsler Cyffredinol nad yw'n cryfhau democratiaeth os na ellir llenwi sedd wag⁸⁶ a bod risg, er ei bod yn un fach, y bydd y ddarpariaeth yn cynyddu'r risg y bydd seddi'n parhau i fod yn wag tan yr etholiad nesaf.⁸⁷

116. At hynny, dywedodd y canlynol wrthym:

"The question is whether attempting to have a sort of by-election system that then really can't reflect the proportional basis, whether that weakens democracy by weakening the proportionality element, or it intrudes within it, and those are

⁸⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [131]

⁸⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [132]

⁸⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [134]

⁸⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [138]

really the balances to consider: which one do you prefer, one over the other? The position that we've come to—and I think it was the position of the special purpose committee—was that in those circumstances it should remain vacant. Obviously, if there are recommendations or views from the committee, those are obviously ones that can be considered.”⁸⁸

117. Esboniodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai is-etholiad y cyntaf i'r felin yn peri problemau oherwydd ei fod yn gwbl groes i'r hyn sydd wedi digwydd o ran y cydbwysedd drwy'r system pleidleisio cynrychiolaeth gyfrannol.⁸⁹

118. Nododd swyddog a oedd gyda'r Cwnsler Cyffredinol ddewis arall, sef cael:

“... count-back mechanism, where you apply the original vote, but the returning officer would go to the next party, obviously after you've discounted the party that had exhausted its list, but the conclusion that the Counsel General and Ministers took was that the best way to protect the proportionality of the original vote was to carry the vacancy.”⁹⁰

Ein barn ni

119. Rydym yn nodi sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch adran 9 o'r Bil.

120. Rydym yn cytuno â'r Cwnsler Cyffredinol na fyddai adran 9 o'r Bil, sy'n rhoi adran 11 newydd yn Neddf 2006, yn arwain at gryfhau democratiaeth mewn amgylchiadau pan fo sedd yn parhau i fod yn wag.

121. Yn ein barn ni, mae angen mynd i'r afael â'r sefyllfa honno fel bod mecanwaith priodol yn cael ei ddefnyddio i sicrhau nad oes sedd wag. Bydd gadael sedd yn wag ynnddo'i hun yn amharu ar gyfranoldeb etholiad a gynhaliwyd ac, er nad yw'n ddull delfrydol, byddai llenwi sedd wag drwy ddefnyddio mecanwaith priodol yn cynrychioli dull gwell a mwy democrataidd.

122. Nid ydym wedi cymryd tystiolaeth ar y mater hwn ac felly nid ydym mewn sefyllfa i ddarparu ateb sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

123. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y mater hwn yn ddigon pwysig i dynnu sylw at ein pryderon.

⁸⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [134]

⁸⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [136]

⁹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [139]

Rhan 4 - Adolygu Ffiniau Etholaethau'r Senedd

Adran 17 - Etholaethau'r Senedd ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2026 ac adran 18 - Etholaethau'r Senedd ar gyfer etholiadau cyffredinol ar ôl 1 Ebrill 2030

124. Mae adran 17 yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch etholaethau'r Senedd y caiff Aelodau o'r Senedd eu hethol ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026.

125. Mae paragraff 8 o Atodlen 1 yn cynnig bod yn rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ⁹¹(y Comisiwn Ffiniau), cyn 1 Ebrill 2025, wneud a chyhoeddi adroddiad terfynol ar adolygiad ffiniau 2026, ac anfon yr adroddiad hwn at Weinidogion Cymru.

126. Mae paragraff 9 o Atodlen 1 yn cynnig sut y mae'r adroddiad terfynol i'w weithredu. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gweithredu'r penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn Ffiniau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn 14 wythnos i osod yr adroddiad terfynol gerbron y Senedd, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Pan fo amgylchiadau eithriadol, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn 14 wythnos i osod yr adroddiad terfynol, osod datganiad sy'n nodi'r amgylchiadau eithriadol. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru barhau i osod datganiadau o'r fath bob 4 wythnos nes y gwneir y rheoliadau.

127. Mae adran 18 yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n cynnig mewnosod Rhan 3A newydd (Adolygiadau o Ffiniau Etholaethau'r Senedd) yn *Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013*⁹² (Deddf 2013) sy'n gwneud darpariaeth ynghylch etholaethau'r Senedd y caiff Aelodau o'r Senedd eu hethol ar gyfer etholiadau cyffredinol ar ôl 1 Ebrill 2030. Fel y cynigiwyd, mae Rhan 3A yn cynnwys adrannau 49A i 49L newydd.

128. Mae adran 49J o Ddeddf 2013 yn cynnig sut y mae'n rhaid i adroddiad terfynol ar yr adolygiad ffiniau (sy'n ofynnol gan adran 49I) gael ei weithredu gan Weinidogion Cymru. Pan fo'n ofynnol i newidiadau gael eu gwneud i etholaethau'r Senedd, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhoi effaith i'r penderfyniadau a wneir mewn adroddiad terfynol gan y Comisiwn

⁹¹ Mae adran 12 o'r Bil yn cynnig ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

⁹² Mae adran 11 o'r Bil yn cynnig ailenwi *Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013* yn *Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013*

Ffiniau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gosod yr adroddiad gerbron y Senedd ac, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, o fewn 6 mis sut bynnag.

129. Mae adran 49J hefyd yn cynnig y camau i'w cymryd gan Weinidogion Cymru os bydd amgylchiadau eithriadol o'r fath (sy'n union debyg i'r rhai sy'n ofynnol o dan Atodlen 1 i'r Bil). Mae rheoliadau o dan adran 49J i'w gwneud drwy offeryn statudol, y mae'n rhaid ei osod gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddynt gael eu gwneud. Byddai is-adran (8) yn sicrhau nad yw'r rheoliadau'n dod i rym yn effeithio ar ddychwelyd Aelod o'r Senedd na chyfansoddiad y Senedd nes diddymu'r Senedd mewn cysylltiad â'r etholiad cyffredinol cyffredin nesaf.

130. Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol esbonio pam y mae'n rhaid i reoliadau i'w gwneud o dan baragraff 9 o Atodlen 1, ac adran 49J newydd o Ddeddf 2013 (i'w mewnosod gan Atodlen 2), er mwyn gweithredu argymhellion ffiniau'r Comisiwn Ffiniau, gael eu gosod yn y Senedd, ond nid ydynt yn ddarostyngedig i weithdrefn graffu ffurfiol gan y Senedd.

131. Nododd y Cwnsler Cyffredinol fod hyn er mwyn cadw'r wleidyddiaeth allan o benderfyniad dros ffin fel na fyddai ymyriad gwleidyddol gan bleidiau gwleidyddol yn argymhellion y comisiwn ffiniau newydd.⁹³

132. Mae'r Bil yn cynnig bod yn rhaid gosod rheoliadau i weithredu argymhellion ffiniau'r Comisiwn Ffiniau mewn pryd ar gyfer etholiad cyffredinol 2026 o fewn 14 wythnos i'w adroddiad gael ei osod gerbron y Senedd. Mae'n rhaid gosod rheoliadau i weithredu argymhellion y Comisiwn Ffiniau mewn pryd ar gyfer etholiad 2030 o fewn chwe mis i'w adroddiad gael ei osod. Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol esbonio'r anghysondeb hwn mewn terfynau amser ar gyfer gosod y rheoliadau priodol.

133. Atebodd y Cwnsler Cyffredinol drwy ddweud y canlynol:

"I think it purely comes down to the time frame that we're in in order to get the recommendations there in time, and again, counting back. The way I've looked at this is I think that we'd be looking at a commission report, if the legislation goes through in accordance with the timescale and all the things that need to take place, somewhere around the beginning of April 2025. You've then got for 14 weeks in which the regulations need to be put together, which takes you to July 2025. The Gould convention is a convention that came in as a result of, I

⁹³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [70]

*suppose, problems that arose over electoral legislation in Scotland but is one that I think we very much adhere to. If you count back from that, that leaves only a leeway of approximately three months. So, basically, going through the timescale within 14 weeks allows very little room for manoeuvre, to ensure that those conventions are complied with. But, of course, it'll be different then. Once you're past 2026, you're starting right from the beginning of the four-year period, so the ability to have a longer period of time for that process is there, is built in to that.*⁹⁴

Ein barn ni

134. Rydym yn nodi mai osgoi ymyriad gwleidyddol yw'r rhesymeg nad yw'r pwerau gwneud rheoliadau ym mharagraff 9 o Atodlen 1 ac adran 49J(1) o Ddeddf 2013 (i'w mewnosod gan Atodlen 2) yn ddarostyngedig i weithdrefn (mewn perthynas â gweithredu canlyniad adolygiadau ffiniau). Rydym yn cytuno â'r rhesymeg hon ac nad yw gweithdrefn yn briodol ar gyfer y pwerau hyn.

135. Nid yw'n glir pam y dewiswyd cyfnod chwe mis fel y cyfnod y mae'n rhaid gosod rheoliadau ynddo (oni bai bod amgylchiadau eithriadol) er mwyn gweithredu argymhellion ffiniau'r Comisiwn Ffiniau ar gyfer etholiadau cyffredinol y Senedd a gynhelir ar ôl 1 Ebrill 2030. I ni, ymddengys fod hwn yn gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol, yn enwedig gan y bydd cyfnod byrrach yn rhoi mwy o amser i weinyddwyr etholiadol wneud paratodau perthnasol i roi effaith i'r rheoliadau. Yn ogystal, rydym yn deall mai'r cyfnod cyfatebol ar gyfer etholiadau cyffredinol y DU yw pedwar mis fel y darperir gan *Ddeddf Etholaethau Seneddol 2020*.⁹⁵

Argymhelliad 10. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol gyfiawnhau pam y mae adran 49J newydd (i'w mewnosod gan Atodlen 2 i'r Bil) o *Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013* (i'w hailenwi yn rhinwedd adran 11 o'r Bil) yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau, i weithredu argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (i'w ailenwi yn rhinwedd adran 12 o'r Bil) ar gyfer etholiadau cyffredinol y Senedd a gynhelir ar ôl 1 Ebrill 2030, gael eu gosod o fewn

⁹⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [72] Mae confensiwn (neu egwyddor) Gould yn darparu na ddylid cymhwyso deddfwriaeth etholiadol i unrhyw etholiad a gynhelir o fewn chwe mis i'r ddarpariaeth newydd ddod i rym (am ragor o drafodaeth, gweler *Y Comisiwn Etholiadol. Scottish elections 2007. The independent review of the Scottish Parliamentary and local government elections 3 May 2007* (Saesneg yn unig), Hydref 2007, tudalen 112)

⁹⁵ *Deddf Etholaethau Seneddol 2020*

chwe mis ac, yn unol â hynny, esbonio pam na ddewiswyd cyfnod 4 mis fel y'i defnyddir mewn perthynas ag etholiadau cyffredinol y DU.

Rhan 5 - Adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc. a darpariaethau cyffredinol

Adran 19 - Adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc. ar ôl etholiad cyffredinol 2026

136. Mae adran 19 yn gosod dyletswydd ar y Llywydd i gyflwyno cynnig bod y Senedd yn sefydlu pwyllgor i adolygu gweithrediad ac effaith Rhannau 1 a 2 o'r Bil, os bydd yn cael ei ddeddfu, yn ogystal ag adolygu i ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru.

137. Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol am adran 19 ynghyd ag adran 7 (gweler uchod) gan eu bod yn ymwneud ag egwyddor debyg ynghylch a yw'n gyfansoddiadol briodol gosod dyletswydd ar Lywydd mewn Senedd yn y dyfodol.

138. O ran adran 19, dywedodd y canlynol:

*"... what it does do is facilitate and ensure that there is a debate that takes place. The debate doesn't impose any duties on the Senedd itself. What it does do is impose a duty on the Llywydd, who has an obligation to table a motion as soon as practical, not later, if I recall right now, than six months, but certainly to report within 12 months, firstly on how this legislation has operated, including, I think, a very useful term that's in there, 'democratic health', as one of the criteria, but, basically, how has this reform actually worked, et cetera. That brings the matter completely into the hands of the Senedd. The Senedd could be doing this in any event if it wished, but the legislation merely ensures that it does actually happen, by the tabling of a motion."*⁹⁶

139. Wedi hynny, gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol pam y mae angen adran 19. Dywedodd y canlynol:

"Section 19, I think, is there, really, for the same reasons, but, essentially, that this is an important piece of legislation. It makes an important change to the structure of the Senedd for the future. It makes important changes in terms of the voting

⁹⁶ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [86]

system. I think the clause you're referring to also includes a provision in respect of democratic health, which is something I'm particularly interested in and something I think Parliaments should be looking at. And I think it is appropriate for Parliaments to actually review the operation of legislation that is passed and I think it follows on from the other clause as well. This is something that is considered to be appropriate to be on the face of the Bill to make sure that that debate happens and it happens very early on ... I would hope that it would be universally welcomed."⁹⁷

140. Nododd swyddog a oedd gyda'r Cwnsler Cyffredinol, fel gyda'r gofyniad a gynhwyswyd yn adran 7, os nad oedd y Senedd am sefydlu pwyllgor, ei bod yn gallu gwrthod y cynnig, ac mai dyna'r union reswm y mae'n cael ei sefydlu felly.⁹⁸

141. O ran opsiynau eraill, roedd y Cwnsler Cyffredinol o'r farn a ganlyn:

*"... the only logical alternative way of doing this is what might normally happen in progress and that is the Senedd choosing, of its own volition, that this is something it would want to consider very early on, and that applies to the previous discussion we've had about the job-sharing issue. All those powers lie with the Senedd and all these clauses actually do ensure that a debate actually does take place. So, it's an interesting provision in the way it operates, and I think it is no more than that."*⁹⁹

142. Gwnaethom hefyd nodi, pe bai'n cael ei sefydlu o dan adran 19, y byddai'n ofynnol i'r pwyllgor adolygu "i ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru". Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol beth y mae elfennau democratiaeth iach yn ei gwmpasu. Dywedodd y canlynol:

"The elements of a healthy democracy—it's a phrase I have been using ever since I've had this area of responsibility. Because, I think, apart from various well-being provisions that we all consider—environmental, equality, and so on—the state of our democratic institutions and our democratic system, our civic system, is important. I think it would relate specifically to looking at how the election, how the system, has actually

⁹⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [111]

⁹⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [112]

⁹⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [114]

operated, how the voting system has worked, what the turnouts are, what the accessibility issues that have been learnt are. I think all those are things that go into the question of democratic health. If you have a situation where people aren't participating, then I think that falls within the democratic health, or why people are not participating—what is it, et cetera? So, all the issues that relate to accessibility, motivation, the impact of the voting system, how that has operated and impacted and engaged as well, maybe specifically in terms of sections of the community that have or have not participated within elections; I think all those fit within the broad frame. I think it is open for the Senedd itself to broadly interpret how it sees the issue of democratic health, but, for me, I actually think it is a very, very important part of discussion that needs to take place on a regular basis in the Senedd.”¹⁰⁰

143. Gwnaethom ofyn hefyd i'r Cwnsler Cyffredinol esbonio pam y mae adran 19 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor newydd gael ei sefydlu, pan all pwyllgor a sefydlir ar ddechrau'r Seithfed Senedd fod mewn sefyllfa well i ymgymryd â'r gwaith hwnnw (os yw am wneud hynny). Atebodd y Cwnsler Cyffredinol:

“Ni fyddai adran 19 yn atal y Senedd rhag penderfynu cynnwys y gwaith hwn o fewn cylch gwaith ehangach pwyllgor a sefydlir ar ddechrau'r Seithfed Senedd. Byddai'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynnig yn caniatáu i'r Llywydd, ar y cyd â'r Pwyllgor Busnes, ystyried opsiynau mewn perthynas â sefydlu strwythur ehangach ar gyfer pwyllgorau ar ddechrau tymor y Senedd pan sefydlir pob pwyllgor ar gyfer y tymor hwnnw. Os ystyrir ei bod yn briodol i bwyllgor sefydledig gynnal yr adolygiad, mae croeso i unrhyw Aelod gyflwyno gwelliant i'r cynnig i'r perwyl hwn yn unol â Rheol Sefydlog 12.22.”¹⁰¹

144. Wrth benderfynu bod yn “rhaid i'r pwyllgor gwblhau'r adolygiad ddim hwyrach na 12 mis ar ôl cyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhelir ar ôl 6 Ebrill 2026”, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym ei fod wedi ystyried y ffactorau a ganlyn:

“Mae lleihau hyd tymhorau'r Senedd yn cynyddu amllder etholiadau'r Senedd. Os bydd gwersi i'w dysgu yn sgil

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [118]

¹⁰¹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 7

gweithredu'r Ddeddf ar ôl yr etholiad yn 2026, yna mae'n bwysig bod digon o amser i'r canfyddiadau hynny ac unrhyw ymatebion posibl gael eu hystyried cyn yr etholiad dilynol yn 2030. Unwaith eto, mater i'r Senedd, wrth gwrs, yw penderfynu a oes cefnogaeth i'r cynnig - gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer adrodd - ac mae croeso o hyd i unrhyw Aelod gyflwyno gwelliant i'r cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.22."¹⁰²

145. Ar ôl cwblhau unrhyw adolygiad o rannu swydd, o dan adran 7 o'r Bil, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad yn nodi pa gamau, os o gwbl, y maent yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion. Gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol pam nad oes dyletswydd gyfatebol ar Lywodraeth Cymru i ymateb yn ffurfiol i argymhellion pwyllgor sy'n codi o dan adran 19 o'r Bil. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

*"I'm not sure why that's the case, because I just take it for granted that, if a committee produces a report, Government has a political and ethical responsibility to respond to that. It's part of our democratic process. But it is a matter that can be dealt with by Standing Orders, rather than legislating per se, and I would have thought that would be the direction. I'm trying to think off the top of my head now what the Standing Orders provision actually is."*¹⁰³

146. Dywedodd swyddog gyda'r Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

"I don't know off the top of my head, but there is a Standing Order provision in relation to it, if helpful. The distinction, I think, between section 7 and section 19 was that, of course, section 7 in relation to job sharing is looking at the feasibility of introducing provision in relation to something that doesn't currently exist, whereas section 19 was reviewing the introduction of new law, so it didn't necessarily follow, with the section 19 review, that there would then be action for Government to take. Whereas, with section 7, Ministers were keen to follow or to provide a pathway that followed the model of the special purpose committee, so for Senedd consideration for it, and, if endorsed by the Senedd, then an action on

¹⁰² Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 16 Tachwedd 2023, ymateb i gwestiwn 8

¹⁰³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [122]

*Government to then bring forward proposals to give effect to that.*¹⁰⁴

Ein barn ni

147. Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar adran 19 o'r Bil.

148. Mae adran 19 o'r Bil yn wahanol i adran 7 gan ei bod yn ceisio ei gwneud yn ofynnol, gyda chydsyniad y Senedd, i bwyllgor Senedd wneud gwaith craffu ar ôl deddfu, yn hytrach na datblygu polisi.

149. Wrth ei gwneud yn ofynnol i Lywydd yn y dyfodol gyflwyno cynnig i sefydlu pwyllgor i wneud gwaith o'r fath ac, yn unol â'n sylwadau ar adran 7, rydym o'r farn nad yw adran 19 o'r Bil yn gyfansoddiadol briodol chwaith.

150. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y rôl hanfodol y gall craffu ar ôl deddfu ei chael wrth sicrhau bod cyfraith, pan fydd wedi'i deddfu, yn gweithredu'n effeithiol ac fel y'i bwriadwyd. Felly, rydym yn cytuno â'r sylwadau a wnaed gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi yn 2011, sy'n dal i fod yn wir dros ddegawd yn ddiweddarach:

"In our 2004 report, Parliament and the Legislative Process, this Committee also examined the benefits of post-legislative scrutiny: that it would bring to the attention of Parliament legislation which had failed to fulfil its intended purpose along with any unintended consequences; that it might make it possible to identify alternative means of achieving the original goals of the legislation; that it might impose a greater discipline on government; and that it would enable lessons to be learnt about the process leading up to the passing of the relevant Act. In relation to significant constitutional legislation, we believe that post-legislative scrutiny would have the particular benefit of leading to an assessment of whether that legislation had had an adverse impact on other areas of the constitution.

*That report argued that the case for the greater use of post-legislative scrutiny was "compelling" and that the problem with carrying it out was one primarily of limited resources.*¹⁰⁵

¹⁰⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [123]

¹⁰⁵ Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, The Process of Constitutional Change (Saesneg yn unig), 15th Report of Session 2010-12, 18 Gorffennaf 2011, Papur 177 Tŷ'r Arglwyddi, paragraffau 102 i 103

151. Tynnodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn y Pedwerydd Cynulliad sylw hefyd at werth a phwysigrwydd gwaith craffu ar ôl deddfu.¹⁰⁶

152. Rydym o'r farn y byddai craffu ar y Ddeddf ar ôl ei deddfu, os byddai'r Bil yn cael ei basio, o fudd sylweddol. Gellid gwneud gwaith craffu ar ôl deddfu heb fod angen adran 19 a mater i Bwyllgor Busnes y Seithfed Senedd (pan fydd wedi'i sefydlu yn unol â Rheol Sefydlog 11) fyddai penderfynu a ddylai fod yn rhan o gylch gorchwyl penodol pwyllgor yn y dyfodol. Ar ben hynny, gallai unrhyw bwyllgor perthnasol yn y Seithfed Senedd gytuno i wneud gwaith craffu ar y Ddeddf ar ôl ei deddfu pe bai am wneud hynny yn unol ag unrhyw benderfyniad y mae'n ei wneud ynghylch ei raglen waith yn y dyfodol.

153. Yn ogystal â bod adran 19, yn ein barn ni, yn gyfansoddiadol amhriodol a'i bod y mecanwaith anghywir i wneud gwaith craffu ar ôl deddfu, rydym hefyd yn credu y gallai fod yn llawn anawsterau ymarferol. Yn hyn o beth, rydym yn gwneud y sylwadau a ganlyn:

- nid ydym yn credu ei bod yn briodol i Fil arfaethedig gan y llywodraeth awgrymu'r amserlen ar gyfer gwaith craffu ar Ddeddf ar ôl ei deddfu. Y rheswm dros hyn yw y gall cylch gorchwyl unrhyw bwyllgor yn y dyfodol, gan gynnwys cyfrifoldebau sy'n codi o rwymedigaethau Rheolau Sefydlog, effeithio ar ei allu i fodloni'r terfyn amser 12 mis, yn enwedig os na chyflwynir cynnig o dan adran 19(1)(b), am ba reswm bynnag, tan oddeutu diwedd y terfyn amser chwe mis. Gallai gwaith o'r fath effeithio ar swyddogaethau craffu eraill sydd gan y pwyllgor hwnnw;
- mae maint y dasg wrth adolygu Rhannau 1 a 2 o'r Ddeddf yn sylweddol a gallai gymryd mwy na 12 mis.

154. Rydym hefyd yn nodi sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol a'i swyddog y tynnir sylw atynt uchod ym mharagraffau 145 a 146, ynghylch argymhellion pwyllgorau'r Senedd. Nid ydym yn ymwybodol o ofynion y Rheol Sefydlog y cyfeirir atynt a rhwymedigaethau a roddir ar Lywodraeth Cymru wrth ddarparu ymatebion i argymhellion y Pwyllgor.

155. Rydym yn nodi y byddai adran 19(2)(a)(ii) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor a gaiff ei sefydlu o dan adran 19 adolygu "i ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru". Er bod y cysyniad hwn, mewn egwyddor, i'w groesawu, mae hefyd yn oddrychol ac, yn y pen draw, nid yw'n fater y dylid neu y mae angen ei bennu ar wyneb y Bil. Rydym yn credu y dylai pwyllgor

¹⁰⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, [Deddfu yng Nghymru](#), Hydref 2015, paragraffau 338 i 346

fod yn gyfrifol a gallu penderfynu ei gylch gorchwyl ei hun ar gyfer gwaith craffu ar ddarn o gyfraith ar ôl deddfu heb ymyriad gan gyn-lywodraeth neu Senedd.

156. Ar y mater penodol hwn, byddem hefyd yn gwneud y sylw, wrth baratoi'r Bil i'w gyflwyno, y dylai Llywodraeth Cymru hefyd fod wedi rhoi sylw i elfennau democratiaeth iach yng Nghymru fel modd o lywio gwaith wrth baratoi'r Bil. Yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, dylai gwaith cyn-ragarweiniol o'r fath hefyd ddarparu meincnod addas i Lywodraeth Cymru wrth gynnal ei hadolygiad ei hun, gwerthuso effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth, a dysgu gwersi o'i gweithredu.

Casgliad 4. Mae trefniadau craffu ar ôl deddfu ar ôl etholiad cyffredinol y Senedd yn 2026 yn faterion i'r Senedd nesaf (gan gynnwys pwyllgor neu bwyllgorau perthnasol a sefydlir) benderfynu arnynt.

Argymhelliad 11. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ystyried ein sylwadau ar briodoldeb cyfansoddiadol adran 19 o'r Bil ac ystyried a yw adran 19 yn ddarpariaeth briodol i'w chynnwys yn y Bil.

Argymhelliad 12. Os yw'r Cwnsler Cyffredinol yn penderfynu cadw adran 19, dylai ysgrifennu at y Pwyllgor a'r holl Aelodau o'r Senedd cyn y ddadl yng Nghyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil ac esbonio pam y mae'n credu na fyddai pwyllgor o'r Seithfed Senedd ar ei liwt ei hun mewn sefyllfa well i wneud gwaith craffu priodol ar ôl deddfu ac, wrth wneud hynny, benderfynu ei gylch gorchwyl a'i amserlen ei hun ar gyfer y gwaith hwnnw.

Argymhelliad 13. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ysgrifennu at y Pwyllgor yn nodi'n fanwl sut y mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod elfennau democratiaeth iach wedi'u hymgorffori wrth baratoi a drafftio'r Bil.

157. Hefyd, nodwn, er enghraifft, fod adran 21 o *Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018*¹⁰⁷ yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar weithrediad ac effaith y Ddeddf honno o fewn amserlen benodol. Yn yr un modd, mae adran 38 o *Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020*¹⁰⁸ yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar weithrediad darpariaethau penodol yn y Ddeddf honno.

Argymhelliad 14. Dylai'r Cwnsler Cyffredinol ysgrifennu at y Pwyllgor a'r holl Aelodau o'r Senedd cyn y ddadl yng Nghyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil ac esbonio pam na wnaeth gynnwys mecanwaith i Weinidogion Cymru adrodd ar weithrediad ac effaith y Bil hwn (os caiff ei ddeddfu a phan fydd hynny'n

¹⁰⁷ *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018.*

¹⁰⁸ *Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.*

digwydd), yn debyg i ddarpariaethau a gynhwyswyd mewn deddfwriaeth flaenorol.

Adran 20 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.

158. Mae adran 20 yn cynnig y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed y maent yn ystyried ei bod yn briodol er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil neu unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan y Bil. Mae hyn yn cynnwys pŵer i ddiwygio, diddymu, dirymu neu addasu'r deddfiad hwn pa bryd bynnag y caiff ei basio.

159. Gwnaethom ofyn lle y mae'r ffin rhwng darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddeilliadol neu ddarpariaeth drosiannol a mater mwy sylweddol. Atebodd y Cwnsler Cyffredinol:

“Consequential is essentially changes that occur as a result of your legislation or other legislative changes—the type of changes because a name needs to be changed and so on—but they do not change the actual policy intent of the legislation itself. So, it is basically just making the legislation consistent in terms of the way it operates.”¹⁰⁹

160. Ychwanegodd swyddog gyda'r Cwnsler Cyffredinol y canlynol:

“... the purpose of that power, and the scope of that power, is that it's to do anything for the purposes of, in consequence of, or for giving full effect to the provisions of the Bill. So, that, as the Counsel General said, it's anything that's in consequence of those provisions, not something that's directly contradictory to those provisions, and you couldn't do anything more substantive to the main operative provisions within the scope of that power.”¹¹⁰

161. Nododd y Cwnsler Cyffredinol hefyd y canlynol am ddefnyddio'r pwerau i newid nifer yr Aelodau o'r Senedd (fel y nodir yn adran 1 o'r Bil):

“... that would not be achievable under this legislation, and it would not be a reasonable interpretation of 'consequential' to

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [75]

¹¹⁰ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [76]

*do that. That would be a very substantial change and would, in fact, expose the legislation to legal challenge as well.*¹¹¹

Ein barn ni

162. Rydym yn nodi adran 20 o'r Bil ac rydym yn fodlon.

¹¹¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Hydref 2023, Cofnod y Trafodion [78]